BWRDD GWASANAETHAU LLEOL GWYNEDD AC YNYS MÔN

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr, 2014 am 2.30yp yng Ngholeg Menai, Bangor

PRESENNOL:

Dawn Docx, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Walis George, Grŵp Cynefin **(Cadeirydd)**
Geraint Hughes, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Jerry Hunter, Prifysgol Bangor
Bethan Jones, Cyngor Sir Ynys Môn
Cllr John Arwel Roberts Cyngor Sir Ynys Môn (dirprwyo ar ran Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn)
John R Jones, Medrwn Môn
Cllr Dyfrig Siencyn Lewis, Cyngor Gwynedd (dirprwyo ar ran Arweinydd Cyngor Gwynedd)
Ian Rees, Grŵp Llandrillo Menai
Sioned Rees, Llywodraeth Cymru
Dilwyn Owen Williams, Cyngor Gwynedd
Emyr Williams, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Hefyd yn bresennol:

Geraint George, Cyngor Gwynedd
Anwen Davies, Cyngor Gwynedd
Rhian Bayley-Hughes, Cyngor Gwynedd

1. YMDDIHEURIADAU

Peter Newton, Heddlu Gogledd Cymru **(Is-Cadeirydd)**
Andrew Jones, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr / Iechyd Cyhoeddus Cymru
Andy Jones, Prawf Cymru
Marian Jones, Aelod Annibynnol o'r Bwrdd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Ieuan Williams, Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn
Trevor Purt, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Julian Sandham, Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Bethan Russell Williams, Mantell Gwynedd
Richard Parry Jones, Cyngor Sir Ynys Môn

2. CROESO

Croesawyd Ian Rees gan y Cadeirydd i'w gyfarfod cyntaf o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ac yn ei swyddogaeth fel Pennaeth newydd Coleg Menai (Bangor).

3. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 28 TACHWEDD, 2014

Cadarnhawyd y cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2014 fel cofnod cywir o'r trafodaethau.

Dim materion yn codi.

4. BWRDD GWASANAETHAU LLEOL – BLAENORIAETHAU ALLWEDDOL A RENNIR

Cyflwynwyd – adroddiad yn diweddaru ar gynnydd hyd yma wrth ddatblygu'r 3 Blaenoriaeth Allweddol a Rennir a Galluogwyr sylfaenol yn dilyn y penderfyniadau a wnaed yn ystod y cyfarfod diwethaf o'r Bwrdd a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd, 2014.

Isod ceir crynodeb o'r casgliadau:

- Yn unol â'r hyn a gytunwyd yn y cyfarfod o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar 28 Tachwedd, 20134, byddai'r cam datblygol nesaf hwn yn blaenoriaethu'r gwaith o roi eglurdeb ar:
    i. Gynigion ar gyfer gwella perfformiad drwy gydweithio;
    ii. Canlyniadau dinesig a sefydliadol a ddymunir fesul Cynnig;
    iii. Sail dystiolaeth ar gyfer pob Cynnig;
    iv. Cyfraniad partneriaid y BGLl ar gyfer pob maes llafur;
    v. Strwythur darparu a llywodraethu dan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i sicrhau cynnydd ar gyfer pob Blaenoriaeth Allweddol a Galluogydd
- Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo'r llinell amser canlynol fel sail ar gyfer y cam critigol nesaf hwn wrth weddnewid y BGLl:

Trafodaeth gychwynnol yn y BGLl i adnabod yn fras y Blaenoriaethau Allweddol ar y cyd	Cyfieithu trafodaethau 'r BGLl i 3 Blaenoriaeth Allweddol a galluogwr.	Cymeradwyaeth y BGLl i symud gyda'r:- • 3 Blaenoriaeth Allweddol a galluogwyr • Strwythur cyflawni a llywodraethu Arweinwyr ar gyfer pob ffrwd gwaith.	Sefydlu Is-grŵp Cyflawni dros dro.	Adroddiad cynnydd i'r BGLl 18/12/14	Adroddiad cynnydd i'r BGLl 27/01/15 Cymeradwyaeth y BGLl – strwythur cyflawni a llywodraethu	Llawn ddatblygu pob blaenoriaeth Allweddol a galluogwr. [Rhag – Chwef, 2015]	Cynigion drafft lefel uchel ar 3 ffrwd gwaith y blaenoriaethau allweddol i'r BGLl	Cymeradwyaeth BGLl – ffrydiau gwaith y 3 prif flaenoriaeth a'r galluogwyr.
Medi, 2014	Hyd, 2014	Tach, 2014	Rhag, 2014		Ion, 2015		Maw, 2015	Meh,2015

- Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o'r Is-grŵp ar 28 Tachwedd, 2014. Yn unol â'r hyn a gytunwyd gan yr Is-grŵp, anfonwyd gohebiaeth gan Gadeirydd y Bwrdd i'r holl bartneriaid BGLl yn ceisio eglurdeb ar sut byddai pob partner yn cyfrannu at weithredu'r 3 Blaenoriaeth Allweddol o'r meysydd llafur. Cytunwyd hefyd i alw'r cyfarfodydd cyntaf o'r 3 tîm prosiect maes llafur yn ystod mis Ionawr 2015.
- Roedd y cwestiynau allweddol i'w gofyn i bob sefydliad partner BGLl fel ffordd o ddatblygu pob un o'r meysydd llafur ymhellach, wedi eu gwella i adlewyrchu'r trafodaethau a gafwyd yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd, 2014:

C1. Beth yw'r materion allweddol yn eich sefydliad chi mewn perthynas â'r Blaenoriaethau Allweddol/Galluogydd?
C2. Beth arall sydd angen i ni ei wybod?
C3. Beth yw'r canlyniadau sefydliadol ar gyfer pob partner o'r BGLl?
C4. Pa strwythurau sy'n bodoli eisoes er mwyn medru ymdrin â'r canlyniadau/materion hyn?
C5. A oes yna unrhyw fylchau?
C6. A ddylem fod yn fwy cydlynol – beth allem ei wneud yn well gyda'n gilydd er budd dinasyddion Gwynedd ac Ynys Môn?
C7. Beth yw'r ymrwymiadau a roddir gan bob un o'r partneriaid BGLl?
C8. A oes yna unrhyw aliniadau â chynlluniau strategol eraill sy'n bodoli?

- Roedd gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu trefniadau rheoli rhaglenni fel sail i'r cam critigol nesaf wrth ddatblygu Blaenoriaethau Allweddol y Bwrdd. Byddai unrhyw feysydd llafur penodol ar wahân sy'n briodol i'r Galluogwyr yn cael eu hystyried fel rhan o feysydd llafur y Blaenoriaethau Allweddol.
- Fel cam cychwynnol, y nod oedd galw'r cyfarfod cyntaf o bob tîm prosiect Blaenoriaeth Allweddol ym mis Ionawr 2015 er mwyn:

i Adnabod beth yn union yw system dda;

ii. Adnabod beth allai gael ei wneud yn well ar y cyd;

iii. Adnabod pa wybodaeth / data fyddai'n angenrheidiol (sail dystiolaeth).

- Cafwyd cadarnhad gan y Bwrdd Iechyd y byddai'n arwain ar Flaenoriaeth Allweddol 1 – Pobl Hŷn, ond nid oedd y BGLl wedi cael gwybod pwy fyddai'r swyddog arweiniol. Rhoddodd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ystyriaeth i'r llinell amser heriol (uchod) ar gyfer cwblhau ei waith cychwynnol ar feysydd llafur y Flaenoriaeth Allweddol a chafwyd trafodaeth ynghylch asiantaethau partneriaethol yn rhannu'r cyfrifoldeb arweiniol dros yr wythnosau nesaf.

CYTUNWYD:

- **I nodi'r cynnydd hyd yma wrth ddatblygu'r Blaenoriaethau a'r Galluogwyr Allweddol a Rennir dros y 3-5 mlynedd nesaf;**
- **Nodi bod y gwaith yn datblygu'n dda ac yn unol â'r amserlen;**
- **O ystyried y llinell amser heriol ar gyfer cwblhau'r gwaith cychwynnol ar feysydd llafur y Flaenoriaeth Allweddol, cytunwyd derbyn cynnig Prifysgol Bangor y byddai'r Athro Jerry Hunter yn cymryd cyfrifoldeb dros dro fel arweinydd y BGLl ar gyfer y maes llafur Pobl Hŷn. Byddai'r drefn dros dro hon yn parhau hyd nes y llwyddir i gadarnhau manylion swyddog arweiniol o'r Bwrdd Iechyd.**

5. CYFLWYNIAD I'R BWRDD – Goblygiadau'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus / Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Cyflwynodd Sioned Rees, Llywodraeth Cymru wybodaeth i'r Bwrdd yn trafod goblygiadau Adroddiad Williams / Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Nodwyd y pwyntiau canlynol yn benodol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd y cyflwyniad:

- Roedd angen i Gynlluniau Llesiant a Gynigir fod yn seiliedig ar asesiad o lesiant y maes a wasanaethir gan y cynlluniau hynny, gan grynhoi blaenoriaethau allweddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn glir ac yn gryno (BGC – yn disodli Byrddau Gwasanaethau Lleol o fis Ebrill 2016). Nid oedd yn fwriad i'r Cynlluniau hyn fod yn ddogfennau rhy gymhleth a thechnegol;
- Byddai Swyddfa Archwilio Cymru (WAO) yn cael y gwaith o archwilio cadernid a gweithredu'r Cynlluniau Llesiant (a fyddai'n disodli'r Cynlluniau Integredig Sengl). Nid oedd gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd ynghylch sut y byddai'r WAO yn mesur llwyddiant;
- Yn ddiweddar iawn cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynnig o grant i Brif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (£30k i bob ardal o Lywodraeth Leol) i gefnogi gwaith cychwynnol wrth baratoi ar gyfer y dyletswyddau newydd. Cyflwynir amodau'r grant yn y Flwyddyn Newydd;

- O ystyried y tebygolrwydd o Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2015, byddai disgwyl i bartneriaid baratoi ar gyfer y dyletswyddau newydd fel y ganlyn –
    i. Cynnal asesiad o lesiant yng Ngwynedd a Môn – i ddechrau o fis Ebrill, 2015. Canllawiau Llywodraeth Cymru i fod ar gael ym mis Ionawr, 2015;
    ii. Sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (i ddisodli'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol) – aelodaeth i adlewyrchu'r statud. Bydd y broses hon yn cynnwys proses gynefino ar gyfer y Bwrdd newydd cyn cyrraedd statws statudol ym mis Ebrill 2016.

CYTUNWYD:

- **Cynnwys Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel eitem safonol ar agenda'r Bwrdd;**
- **Rhoi ystyriaeth yn y cyfarfod nesaf o'r BGLl o sut y gallai'r Bwrdd ddefnyddio arian grant Llywodraeth Cymru i roi cymorth i baratoi ar gyfer y dyletswyddau newydd (cyfanswm o £60k i Wynedd a Môn yn ystod 2015/16).**

6. TRAFODAETHAU AMGYLCH Y BWRDD – CYNLLUNIAU ARIANNOL Y PARTNERIAID: 2015/16

Gwahoddwyd pob partner BGLl lleol i rannu ei gynlluniau ariannol sefydliadol ar gyfer 2015/16. Rhoddir crynodeb o'r cynlluniau hyn yn **ATODIAD 1**.

CYTUNWYD:

- **Nodi cynlluniau ariannol presennol y partneriaid ar gyfer 2015/16;**
- **Nodi y byddai cynlluniau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gael yn ystod y cyfarfod nesaf o'r Bwrdd;**
- **Creu cronfa o wybodaeth ariannol [Rhian Bayley-Hughes i gydgordio];**
- **I'w gynnwys fel eitem safonol ar agenda'r Bwrdd.**

7. RHAGLEN DDATBLYGU'R BWRDD –

CYTUNWYD i adael yr eitem hon tan gyfarfod nesaf o'r BGLl ar 27 Ionawr, 2015.

8. BLAENRAGLEN WAITH BGLL GWYNEDD A MÔN

Cyflwynwyd – adroddiad ar gadernid y blaenraglen waith bresennol y BGLl ar gyfer 2014/15 yn dilyn camau cychwynnol a gymerwyd gan y Bwrdd dros y 6 mis diwethaf i weddnewid ei hun. Nodwyd bod y Blaenraglen Waith wedi ei hadolygu i adlewyrchu trafodaethau a phenderfyniadau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn ei gyfarfod diwethaf (a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd, 2014).

CYTUNWYD:

- **Gyda'r ychwanegiadau canlynol, cadarnhawyd bod y Blaenraglen Waith ddiwygiedig yn ddigonol ac yn ddigon cadarn fel sail ar gyfer ystyriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol hyd at ddiwedd y flwyddyn (Mawrth, 2015):**
    a. **Trefniadau Sgriwtini Ar y Cyd y BGLl – Ionawr 2015;**
    b. **Alinio maes llafur Cynlluniau Corfforaethol / Cynllun Integredig Sengl – Mawrth, 2015;**
    c. **Cydweithredu Partneriaethol / dyletswyddau newydd (Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) – Mawrth, 2015.**
- **Cyflwyno amlinelliad o Flaenraglen Waith 2015/16 i'w ystyried ar gyfer y BGLl yn ei gyfarfod ar 31 Mawrth 2015.**

9. ADOLYGIAD BLYNYDDOL – BWRDD GWASANAETHAU LLEOL A CHYNLLUN INTEGREDIG SENGL

Cyflwynwyd – adroddiad yn ystyried y gofyniad i gynnal Adolygiad Blynyddol o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'i Gynllun Integredig Sengl (SIP) ac amlinellu sut y gallai'r BGLl symud ymlaen gyda'i adolygiad 2014/15 yn bwrpasol.

Rhoddir crynodeb o'r ystyriaethau isod:

- Bu i ganllaw statudol cenedlaethol (*Cydamcanu Cydymdrechu*; Llywodraeth Cymru, Mehefin 2012) ddynodi BGLlau fel cyrff sy'n gyfrifol am adolygu ac adrodd yn flynyddol ar gynnydd i'r cyhoedd. Llywodraeth Cymru, aelodau a etholwyd yn ddemocrataidd a sefydliadau sy'n aelodau o BGLl.
- Rhaglennwyd gwaith pellach gweddnewidiol ar gyfer y misoedd nesaf i alluogi'r Bwrdd i gychwyn gwireddu ei uchelgais a'i gyfeiriad strategol newydd;
- Rhoddwyd ystyriaeth i ddrafft olaf Cynllun Integredig Sengl (SIP) Gwynedd ac Ynys Môn gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Mawrth, 2014. Cyhoeddwyd y SIP yn sgil hynny ym mis Awst, 2014 fel dogfen weithredol i'w hadolygu yn ystod y flwyddyn nesaf – er mwyn adlewyrchu canlyniadau taith weddnewidiol y Bwrdd.
- Ystyriwyd ei bod hi'n amserol y dylai'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ystyried fel cam cychwynnol sut y dylai gynnal Adolygiad Blynyddol ohono'i hun a'r Cynllun Integredig Sengl (mewn perthynas â 2014/15) i ddechrau o Ebrill, 2015;
- Ystyriwyd y dylid sicrhau, o gofio'r archwiliad presennol o'r BGLl gan Swyddfa Archwilio Cymru, nad yw Adolygiad Blynyddol 2014/15 yn rhy uchelgeisiol. Roedd barn y dylid rhoi blaenoriaeth i ddatblygu strategol a'r capasiti cymorth busnes sydd ar gael i'r Bwrdd er mwyn cefnogi datblygiadau'r Bwrdd i'r dyfodol – yn hytrach nag adlewyrchu'n ôl ar weithgarwch sydd eisoes wedi digwydd.

- Ni ddylai gwaith ymgysylltiol â dinasyddion ffurfio rhan o'r Adolygiad Blynyddol 2014/15 – hyd nes i'r Bwrdd fedru dangos tystiolaeth o gynnydd yn erbyn meysydd llafur y Flaenoriaeth Allweddol.

CYTUNWYD:

- **Cynnal Adolygiad Blynyddol ar gyfer 2014/15 (gan gychwyn ym mis Ebrill 2015) wedi ei seilio ar yr egwyddorion arweiniol canlynol:**
  - **i. Ymagwedd greadigol ond gymesur yn osgoi unrhyw beth sy'n rhy uchelgeisiol;**
  - **ii. Adlewyrchol o uchelgais a chyfeiriad strategol amlygol y Bwrdd;**
  - **iii. Proses adolygol gydlynol – gyda'r nod o greu dau neu ragor o argymhellion ar gyfer y BGLl.**
- **Y broses adolygol i roi ystyriaeth hefyd i'r cwestiwn a yw strwythur y partneriaethau presennol yn addas i'r diben wrth gefnogi'r BGLl i symud yn ei flaen gyda'i flaenoriaethau allweddol / taith weddnewidiol.**

UNRHYW FUSNES ARALL

10. BWRDD ARWEINYDDIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU

Adroddodd y Cadeirydd i'r Bwrdd ynglŷn â chyfarfod y bu iddo ef a'r Uwch Reolwr Partneriaethau ei fynychu o Gadeiryddion a Rheolwyr Partneriaeth BGLl gyda chynrychiolwyr o'r Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol, ac a gadeiriwyd gan Brif Gwnstabl Gogledd Cymru. Yn y drafodaeth yno nodwyd:

- Y diffyg eglurdeb yn gyffredinol ynglŷn â swyddogaeth a phwrpas byrddau rhanbarthol;
- Yr angen i lenwi'r bylchau mewn gwybodaeth – yn rhanbarthol ac yn is-ranbarthol;
- Y dymuniad i sicrhau trafodaethau lleol / rhanbarthol mwy ffurfiol i'r dyfodol;
- Y dymuniad i greu modd i'r BGLlau a'r byrddau rhanbarthol fedru cydweithio.

CYTUNWYD:

- **Cefnogodd aelodau'r Bwrdd y Cadeirydd a'r Uwch Reolwr Partneriaeth i barhau i gynrychioli BGLl Gwynedd ac Ynys Môn mewn cyfarfodydd rhanbarthol i'w cynnal yn y dyfodol dros y misoedd nesaf.**

11. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

CYTUNWYD i nodi'r trefniadau a wnaed i alw'r cyfarfod nesaf o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar 27 Ionawr, 2015 am 2pm yn Ystafell Seminar, Coleg Menai, Bangor, Gwynedd.

Eitemau ar gyfer yr Agenda:

- Blaenoriaethau Allweddol a Rennir y BGLl – adroddiadau cynnydd;

- Blaenraglen Waith – i'w hadolygu;
- Trefniadau Sgriwtineiddio ar y cyd y BGLl – i'w hystyried;
- Trafodaeth o Amgylch y Bwrdd ar Gynlluniau Ariannol pob partner (2015/16);
- Rhaglen Ddatblygu'r Bwrdd – i'w hystyried;
- Strwythur Partneriaethau – i'w ystyried fel cam cychwynnol.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.30pm.